**CYNGOR CYMUNED DOLWYDDELAN 2024/25**

Yn y flwyddyn ariannol 2024/25 derbyniodd y Cyngor Cymuned £20,000 fel archebiant. Bu inni hefyd dderbyn £2949.45 mewn ad-daliadau TAW o flynyddoedd blaenorol, £2140 o'r toiledau a £490 mewn ffioedd ar gyfer y fynwent.

Ein gwariant oedd £1183.65 ar gyfer llogi ystafelloedd, yswiriant, cynnal a chadw'r padiau diffibriliwr a thanysgrifiadau, £1,647.59 ar gyfer costau staff. Tâl sefydlog y Goeden Nadolig am bŵer £775.08. Prynu'r Goeden Nadolig a rhodd tuag at y bwyd a diod. Glanhau biniau cŵn gan gynnwys dal i fyny ers y llynedd £752.50. Costau cynnal a chadw'r fynwent oedd £3590. Costau toiledau oedd £3592.04. Gofal y Senotaff oedd £279.00. Fe wnaethom ni hefyd dalu ffioedd banc o £175.08.

Bu inni dderbyn cyllid SNPA o £2,260 tuag at y fynwent ac roedd gennym gostau o £2,600 yn erbyn hyn, ond roedd gennym £433.40 i'w adennill mewn TAW. Tanwariant bach o £93.40. Bu inni dderbyn £1,540 gan SNPA tuag at gynnal a chadw'r Senotaff i ail-beintio'r llythrennau a'i lanhau. Bu inni wario £1,260 ar atgyweiriadau, gan adael gwarged o £280 ar gyfer cynnal a chadw pellach. Roedd gennym £3,000 o'r flwyddyn flaenorol gan Ymddiriedolaeth Borzello ac fe gawsom £249 arall gan bennod St James. Bu inni wario £3,367.21 ond mae gennym rywfaint o TAW adenilladwy o £320.80 i'w wrthbwyso yn erbyn hyn.

Roedd gennym £7,984 o'r flwyddyn flaenorol gan CBSC ar gyfer y cynllun cymunedol ac wedi gwario £7,982 yn ystod y flwyddyn. Mae'r Cynllun Cymunedol ar gael ar y wefan.

Bu inni dderbyn £7,650 o SPF CBSC tuag at astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer y Cynllun Hydro gyda gwariant o £9,180 ond y gwahaniaeth ydy TAW a wnaethom ei adennill er mwyn torri'n hafal. Y canlyniad oedd bod y Cynllun Hydro yn ymarferol. Bu inni dderbyn cyllid SPF tuag at y fynwent o £61,943. Bu inni wario £77,290.94 yn gyffredinol a derbyn ad-daliad TAW o £12,048.36. Mae gennym ad-daliad pellach o £4,834.31 i'w dderbyn, sy'n gadael tanwariant o £4.73.

Ein balans agoriadol ar ddechrau'r flwyddyn oedd £13,747.29 ac roedd £548.27 ohono yn perthyn i Ddolwyddelan yn ei Blodau a £10,984 wedi'i gyfyngu ar gyfer prosiectau Borzello a Chronfa Allweddol.

Ar ddiwedd y flwyddyn ein balans oedd £11,662.66 gyda £589.96 ohono yn perthyn i Ddolwyddelan yn ei Blodau a'r £11,072.70 yn weddill yng nghronfeydd wrth gefn CCD.

Eleni, rydym newydd dderbyn £33,600 gan SPF Conwy ar gyfer cam 2 y Cynllun Hydro i gynnal yr arolygon angenrheidiol, dylunio'r cynllun terfynol a gwneud cais am ganiatâd cynllunio. Unwaith y bydd hyn wedi'i wneud, bydd gennym fwy o ddealltwriaeth o'r hyn y mae modd ei gyflawni a pha fanteision y gall eu cyflwyno i'r gymuned. Bryd hynny, byddwn yn cynnal cyfarfod cyhoeddus i benderfynu ar y strwythur corfforaethol sydd ei angen i fynd â'r cynllun yn ei flaen a gwneud cais am y grantiau i adeiladu'r cynllun.